**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Gwin (Diwygio) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Uned Polisi a Strategaeth Bwyd Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwin (Diwygio) (Cymru) 2024.

**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd**

**12 Rhagfyr 2023**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Mae dau ddiben penodol i'r offeryn statudol hwn.

(1) Oherwydd bod y DU yn ymuno â Phartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel (CPTPP), rhaid i 4 llywodraeth ddatganoledig y DU gyflwyno rheolau drwy offeryn statudol i wahardd marchnata gwin fel "gwin iâ" a defnyddio disgrifiadau tebyg oni bai bod y cynnyrch yn win a wnaed o rawnwin wedi'i rewi yn naturiol ar y winwydden yn unig. Rhaid i'r offerynnau statudol hyn fod mewn grym erbyn 15 Gorffennaf 2024 pan fydd y DU yn ymuno â CPTPP yn swyddogol.

(2) Bydd hefyd yn gwneud newidiadau i'r arferion, prosesau a chyfyngiadau gwinyddol y gellir eu defnyddio wrth gynhyrchu gwin a chynhyrchion gwin eraill ac yn eu cadwraeth. Mae'r newidiadau hyn yn helaeth. (Noder – ystyr "gwinyddol" yw 'yn ymwneud â gwin a gwneud gwin').

Mae'r offeryn hwn yn gymwys i Gymru yn unig. Mae Defra yn llunio offeryn paralel sy'n berthnasol yn Lloegr. Deellir fod Llywodraeth yr Alban yn llunio ei hofferyn ei hun a fydd yn gymwys yn yr Alban.

Mae Rheoliadau yr UE a Ddargedwir a ganlyn yn cael eu diwygio gan y rheoliadau hyn;

I. Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/33 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran ceisiadau am warchod dynodiadau tarddiad, dynodiadau daearyddol a thermau traddodiadol yn y sector gwin, y weithdrefn ar gyfer gwrthwynebu, cyfyngiadau ar ddefnydd, diwygiadau i fanylebau cynnyrch, canslo gwarchodaeth, a labelu a chyflwyniad.

II. Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/934 12 Mawrth 2019 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran ardaloedd tyfu gwin lle caniateir cynyddu'r cryfder alcoholaidd, arferion gwinyddol awdurdodedig a chyfyngiadau sy'n gymwys i gynhyrchu cynhyrchion gwinwydd, a'u cadwraeth, y ganran isaf o alcohol ar gyfer sgil-gynhyrchion a'u gwarediad, a chyhoeddi ffeiliau OIV.

## 2. Materion sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Gwneir yr offeryn wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 34(1), 50(3) a pharagraff 9 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ac Atodlen 1 iddi.

Bydd yn diwygio'r Rheoliad canlynol i gyflwyno cyfyngiad sy'n gwahardd marchnata gwin fel "gwin iâ" a defnyddio disgrifiadau tebyg oni bai bod y cynnyrch yn win sydd wedi'i wneud yn gyfan gwbl o rawnwin wedi'u rhewi yn naturiol ar y winwydden. Bydd hyn yn cyd-fynd â rhwymedigaethau sy'n ymwneud â marchnata gwin yn y CPTPP ar ôl i'r DU lofnodi'r Protocol Derbyn sy'n ymwneud â'r cytundeb hwnnw ar 16 Gorffennaf 2023.

Bydd yn gwneud Rheoliadau i ddiweddaru'r arferion, prosesau a chyfyngiadau gwinyddol y gellir eu defnyddio wrth gynhyrchu gwin a chynhyrchion gwin eraill, a'u cadwraeth, yn unol â'r rhai a fabwysiadwyd gan y Sefydliad Rhyngwladol Gwinwydd a Gwin (OIV) ers 2019.

Nid yw'n ofynnol i ddiweddaru arferion gwinyddol i gydymffurfio â CPTPP, fodd bynnag, bydd Rheoliadau i'w diweddaru yn galluogi i fusnesau gwin yng Nghymru fabwysiadu arferion newydd a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r safonau OIV diweddaraf. Bydd Llywodraeth y DU yn gwneud Rheoliadau ar gyfer yr un darpariaethau a bydd cyd-fynd â hynny yng Nghymru yn sicrhau'r un cyfleoedd i fusnesau o Gymru. Os na fydd y Rheoliadau'n cael eu gwneud, mae posibilrwydd y bydd busnesau o Gymru o dan anfantais yn y farchnad.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Llofnododd y DU Brotocol Derbyn i ymuno â'r CPTPP ar 16 Gorffennaf 2023. Bydd yn dod i rym yn 2024. Bydd gosod y cyfyngiad gwin iâ ac ati yn unol â rhwymedigaethau sy'n ymwneud â marchnata gwin yn y CPTPP.

Mae'r DU yn aelod o'r Sefydliad Rhyngwladol Gwinwydd a Gwin (OIV), sefydliad rhynglywodraethol rhyngwladol sy'n ymdrin â'r agweddau technegol a gwyddonol ar winwyddiaeth a gwneud gwinoedd. Mae'r safonau gwinyddol y cytunwyd arnynt gan yr OIV yn sail i'r arferion, y prosesau a'r cyfyngiadau gwinyddol y gellir eu defnyddio wrth gynhyrchu gwin a chynhyrchion gwin eraill ac yn eu cadwraeth ym Mhrydain Fawr. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru yn ymwneud ag arferion, prosesau a chyfyngiadau o'r fath yn cael eu diweddaru fel eu bod yn parhau i fod yn unol â rhai'r OIV.

Dechreuodd y DU drafodaethau ar ymuno â CPTPP yn 2021 ac ym mis Mawrth 2023 daeth y trafodaethau i ben yn unol â'n telerau mynediad i'r cytundeb hwnnw. Mae'n darparu bod yn rhaid cynhyrchu gwin sy'n cael ei farchnata gan ddefnyddio'r term 'gwin iâ' gyda grawnwin wedi'u rhewi'n naturiol ar y winwydden yn unig. Mae cynhyrchion o'r fath yn heriol i'w cynhyrchu yn fasnachol ac yn dechnegol ac felly gellir gofyn pris uchel amdanynt ar y farchnad. Mae llofnodi'r CPTPP yn golygu bod yn rhaid diwygio'r rheoliad ar gyfer gwin iâ ar draws y DU gyfan er mwyn gweithredu'r ddarpariaeth.

Bydd yr offeryn hwn hefyd yn diweddaru arferion gwinyddol sydd wedi'u cyflwyno gan y Sefydliad Rhyngwladol Gwinwydd a Gwin (OIV) ac wedi’u cymeradwyo gan y DU yn y fforwm hwnnw. Bydd yr arferion hyn yn gymwys yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU a chyrff yn y fasnach win yn chwarae rhan weithredol yn yr OIV, gan fynychu cyfarfodydd technegol a phleidleisio ar gymeradwyo arferion gwinyddol newydd. Mae'r OIV yn ychwanegu neu'n dileu arferion o'i argymhellion yn flynyddol yn dilyn proses graffu wyddonol 7 cam y mae arbenigwyr y DU, arbenigwyr yr UE ac arbenigwyr eraill ar draws y byd yn cyfrannu ati. Er mwyn ei fabwysiadu, rhaid sicrhau consensws ar gyfer cymeradwyo'r penderfyniad. Mae cydymffurfio â’r arferion hyn yn gosod y sail ar gyfer marchnata a mewnforio gwinoedd i'r DU, yr UE ac ati. Mae Rheoliad (CE) 2019/934 yn nodi rhestrau o arferion, prosesau a chyfyngiadau gwinyddol cymeradwy sy'n cael eu diweddaru o bryd i'w gilydd. Dim ond y datblygiadau technolegol ac arferion gwneud gwin diweddaraf y gall ein cynhyrchwyr gwin gael mynediad atynt os oes rhaid diwygio'r darpariaethau gwinyddol yn Rheoliad (UE) 2019/934 i ddiweddaru'r darpariaethau hyn.

Daw OS Cymru i rym ar 15 Gorffennaf 2024, i fodloni gofynion y cytundeb CPTPP ac i gyd-fynd â'r OSau sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraethau'r DU a'r Alban, i gyfyngu ar unrhyw wahaniaethau rhwng sut y mae'r deddfau'n berthnasol yng Nghymru ac yng ngweddill y DU.

## 5. Ymgynghori

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y cyd gan Lywodraeth y DU ar ran Llywodraethau Cymru a'r Alban am wyth wythnos rhwng 24 Mai 2023 a 21 Gorffennaf 2023. Cafwyd cyfanswm o 96 o ymatebion, a daeth 18 o'r rhain gan ymatebwyr o Gymru. Yn gyffredinol, croesawyd y newidiadau arfaethedig gan y diwydiant ac ystyriwyd bod ganddynt botensial i gael effaith economaidd sylweddol a chadarnhaol ar fusnesau, gan ganiatáu arloesedd ac arferion mwy cynaliadwy yn y sector gwin, ehangu’r dewis i ddefnyddwyr a chaniatáu mesurau a allai helpu i leihau allyriadau carbon a chostau cynhyrchu. Nid oedd gwahaniaeth sylweddol rhwng ymatebwyr o Gymru ac ymatebwyr eraill. Mae gan gyrff cynrychioliadol aelodau yng Nghymru a'r tu hwnt ac roeddent i gyd yn cefnogi newid.

Roedd ymatebion yn ymwneud â'r diffiniad o win iâ yn gefnogol ar y cyfan ac yn deall y rhesymau dros gyflwyno'r diffiniad. Codwyd cwestiynau ynghylch gwin a wnaed o rawnwin wedi'u rhewi'n artiffisial. Gellir cynhyrchu a gwerthu gwinoedd o'r fath o hyd, ond ni chânt eu marchnata fel 'gwin iâ'.

Roedd yr ymatebion i'r cynnig i ddiweddaru arferion gwinyddol yn gadarnhaol. Roedd y diwydiant yn deall y byddai gallu defnyddio arferion mwy newydd o fudd iddynt. Cafwyd cefnogaeth aruthrol i ddiweddaru'r arferion hyn gan ein

cynhyrchwyr domestig yn ogystal â phartneriaid masnachu rhyngwladol, gyda phob un yn deall pwysigrwydd cael mynediad at y dulliau diweddaraf.

Mae Sefydliad Masnach y Byd (WTO) yn ei gwneud hi'n ofynnol i gael cyfnod hysbysu o 60 diwrnod ar gyfer y rheoliadau, fel ffordd o alluogi unrhyw aelod i dynnu sylw at fater. Dechreuodd y cyfnod hwnnw ym mis Medi 2023 a daeth i ben ym mis Tachwedd 2023, ac ni chafodd unrhyw faterion eu codi. Yn dilyn y cyfnod hysbysu hwn o 60 diwrnod mae'n ofynnol cael cyfnod pellach rhwng dyddiad gosod y rheoliadau drafft a'r dyddiad dod i rym er mwyn galluogi cyfnod segur, gan greu cyfnod o oddeutu 6 mis rhwng y dyddiad gosod a'r dyddiad dod i rym.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r Rheoliadau'n cyflwyno diwygiadau nad ydynt yn addasu'r polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd sylweddol; mae'r offeryn statudol yn ymwneud â mân ddiwygiadau technegol sy'n cael eu gwneud i ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir i ddarparu hyblygrwydd i fusnesau. Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar fusnesau.

Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.